# Asesiad Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT

## Llwybrau i Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac Ysgol Garth Olwg

Mawrth 2025



REDSTART™

## YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

## RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Aliniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded 5
5. Arolygon Cerddwyr/Traffig 32
6. Materion Cymdeithasol 35
7. Data Gwrthdrawiadau 36
8. Trosolwg Llwybr **Error! Bookmark not defined.**
9. Casgliadau ac Argymhellion 41

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gynnal asesiad er mwyn pennu argaeledd y llwybr(au) cerdded rhwng y lleoliadau canlynol:

- **Prif Lwybr** - Garej Ton-teg i Ysgol Gyfun Bryncelynnog.
- **Is-lwybr 1** - Efail Isaf i Ysgol Gyfun Bryncelynnog (yn ymuno â'r Prif Lwybr ar ryngwyneb Bryn y Goron â'r B4595 Ffordd Llantrisant).
- **Is-lwybr 2** - Cyfnewidfa Gwaunmiskin i Ysgol Gyfun Bryncelynnog (yn ymuno â'r Prif Lwybr ar gyffordd Woodlands a Llys Cadwal â'r B4595 Ffordd Llantrisant).

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu'r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy'n wynebu plant a'r rhieni/cynhalwyr sy'n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o'r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i'r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod:

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gwelededd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar gael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle ar droed i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad ar droed:

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr (Prif Lwybr ac Is-lwybrau cyfagos)

4.1.1 Mae'r **Prif Lwybr** yw o Garej Ton-teg, yr Heol Fawr, Ton-teg CF38 1EG at Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Beddau CF38 2AE. Mae dau Is-lwybr arall hefyd wedi'u hasesu'n rhan o'r adroddiad, gyda'r tri llwybr wedi'u dangos yn **Nelwedd 4.1** isod.

**Delwedd 4.1 – Prif Lwybr ac Is-lwybrau i Ysgol Gyfun Bryncelynnog (Delwedd © 2024 Airbus)**




- **Prif Lwybr** - Yn cychwyn ar y B4595 yr Heol Fawr, Ffordd Llantrisant, Woodlands, Stryd y Fasnach, Heol-y-Beddau, Heol Penycoedcae i Ysgol Gyfun Bryncelynnog.
- **Is-lwybr 1** - Yn cychwyn yn Heol yr Orsaf, Heol y Parc, Ffordd y Capel, Heol-y-Ffynnon, Heol Dowlais, pont droed dros yr A473, Heol Dowlais, Bryn y Goron i ymuno â'r Prif Lwybr i Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn Ffordd Llantrisant.
- **Is-lwybr 2** - Yn cychwyn yn Heol Gwaunmeisgyn, B4595 Ffordd Llantrisant, Llys Cadwal i ymuno â'r Prif Lwybr i gyfeiriad Ysgol Garth Olwg yn Ffordd Llantrisant.

## 4.2 Prif Lwybr - Garej Ton-teg i Ysgol Gyfun Bryncelynnog

4.2.1 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y Prif Llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Yn y lleoliadau canlynol mae angen i gerddwyr gamu i'r ffordd i basio ei gilydd:

- Y llwybr troed tuag at gyffordd â signalau Pen-yr-Eglwys (llystyfiant yn hongian),
- Y droedffordd y tu allan i fwyty Nepal Gurkha Hall (lled troedffordd cul),
- Teras y Bryn ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant (parcio ar y stryd yn culhau llwybrau troed),
- Teras Gwynfryn ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant (parcio ar y stryd yn culhau llwybrau troed),
- Y droedffordd gyferbyn â Garej Texaco ar y B4595 Ffordd Llantrisant (llystyfiant yn hongian),
- Teras Llest ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant (parcio ar y stryd yn culhau llwybrau troed)

4.2.2 Mae disgyblion sy'n byw llai na 2 filltir yn cerdded y llwybr hwn o ardal mynedfa Ystad Ddiwydiannol y Drenewydd ac mae'r llwybr oddi yma eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau i/o Ysgolion Cynradd Gwauncelyn, Ton-teg, Llanilltud Faerdref, Maes-y-bryn, Ysgol Gynradd ac Uwchradd Garth Olwg eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.2.3 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.2.4 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, ynysoedd lloches canolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.2.5 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20mya yn bennaf (gyda rhan 30mya ar hyd y B4595 Woodlands). Gwelwyd bod llif cerbydau yn gymedrol i uchel yn ystod amser yr asesiad ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol.

4.2.6 Mewn mannau, mae angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio, gwyliadwraeth naturiol a gwelededd i gerddwyr.

4.2.7 Tynnwyd ffotograffau 4.1 i 4.29 ar hyd y **Prif Lwybr** o Garej Ton-teg i Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac fe'u dangosir isod.

**Ffotograff 4.1 – Croesfannau a reolir gan signalau ar bob un o'r pedair cangen o gyffordd Heol yr Eglwys a Heol Tonteg â'r B4595 yr Heol Fawr**




**Ffotograff 4.2 – Cyswllt croesfan a reolir gan signalau i Barc Ton-teg ar y B4594 yr Heol Fawr**



**Ffotograff 4.3 - Man croesi heb ei reoli (gyda lloches i gerddwyr) ar y B4595 yr Heol Fawr**




**Ffotograffau 4.4 a 4.5 – Mae croesfannau a reolir gan signalau wedi'u lleoli ar bob un o'r pedair cangen o gyffordd Heol Sant Illtyd a Heol yr Orsaf â'r B4595 yr Heol Fawr**






**Ffotograffau 4.6 a 4.7 – Croesfannau a reolir gan signalau wedi'u lleoli ar bob un o'r tair cangen o gyffordd y B4595 yr Heol Fawr a mynedfa Ysgol Garth Olwg**







**Ffotograff 4.8 – Troedffordd ar hyd y B4595 yr Heol Fawr gerllaw Ysgol Garth Olwg wedi'i chyfyngu gan goed a llystyfiant sy'n hongian**



**Ffotograff 4.9 – Croesfan a reolir gan signalau ar y B4595 yr Heol Fawr cyn y gyffordd gyda Rhodfa Dewi Sant**




**Ffotograff 4.10 - Troedffordd ar hyd y B4595 yr Heol Fawr i'r gorllewin o Rodfa Dewi Sant, lled wedi'i gyfyngu gan goed a llystyfiant sy'n hongian**



**Ffotograffau 4.11 a 4.12 – Croesfannau a reolir gan signalau wedi'u lleoli ar y pedair cangen o gyffordd Pen-yr-Eglwys a Choed Dowlais â'r B4595 Ffordd Llantrisant**







**Ffotograff 4.13 – Croesfan a reolir gan signalau ar y B4595 yr Heol Fawr ger y cyffordd â Ffordd y Friallen**



**Ffotograff 4.14 - Parcio ar y stryd yn lleihau'r lled defnyddiadwy ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant yn Nheras Gwynfryn, gyda'r droedffordd gyferbyn ar gael.**




**Ffotograff 4.15 – Croesfan a reolir gan signalau yn salon gwallt Root 66 Hair Studio ar y B4595 Ffordd Llantrisant**



**Ffotograff 4.16 – Parcio ar y stryd yn lleihau'r lled defnyddiadwy ar hyd Teras y Bryn ar y B4595 Ffordd Llantrisant**




**Ffotograff 4.17 a 4.18 – Troedffordd ger Garej Texaco ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant, gyda choed a llystyfiant sy'n hongian yn culhau lled y llwybr troed defnyddiadwy**






**Ffotograff 4.19 – Parcio ar y stryd yn lleihau'r lled defnyddiadwy ar Deras Llest ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant**




**Ffotograff 4.20 – Croesfan a reolir gan signalau ger y gyffordd â Bryn y Goron ar y B4595 Ffordd Llantrisant**



**Ffotograff 4.21 – Troedffordd gul tua <0.5metr y tu allan i Fwyty Nepal Gurkha Hill, gyda'r droedffordd gyferbyn yn lletach ac ar gael**




**Ffotograff 4.22 a 4.23 – Croesfannau a reolir gan signalau ar bob un o'r pedair cangen o gyffordd y B4595 Woodlands a Llys Cadwal â'r B4595 Ffordd Llantrisant**







**Ffotograffau 4.24 – Rhan o'r llwybr ar hyd y B4595 Woodlands**




**Ffotograff 4.25 – Croesfan sebra ar y B4595 Heol y Plwyf ger y gyffordd â Stryd y Fasnach**



**Ffotograff 4.26 – Llwybr troed ar hyd Stryd y Fasnach**




**Ffotograff 4.27 – Mannau parcio oddi ar y ffordd ar hyd Heol-y-Beddau ddim yn effeithio ar led y llwybr troed sydd ar gael**



**Ffotograff 4.28 – Cyswllt man croesi heb ei reoli dros y twmpath cyflymder presennol (ger allanfa'r ysgol) wedi'i rwystro gan barcio ar y stryd**




**Ffotograff 4.29 – Cyswllt man croesi heb ei reoli dros y twmpath cyflymder (ger mynedfa'r ysgol) wedi'i rhwystro gan barcio ar y stryd**



## 4.3 SIs-lwybr 1 – Efail Isaf (yn cychwyn yn Heol yr Orsaf) i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr)

4.3.1 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd Is-lwybr 1 yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Yn y lleoliadau canlynol mae angen i gerddwyr gamu i'r ffordd i basio ei gilydd:

- Rhan o droetffordd gul Ffordd-y-Capel
- Rhan o droedffordd gul Heol Dowlais

4.3.2 Mae disgyblion sy'n byw llai na 2 filltir i ffwrdd yn cerdded y llwybr hwn o ardal Bryn y Goron ac mae'r llwybr oddi yma eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau i Ysgol Gynradd Maes-y-bryn ac Efail Isaf ac oddi yno eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.3.3 Mae'r troedffyrdd (y ddwy ochr i'r ffordd gerbydau) yn gorffen yn sydyn wrth ryngwyneb Heol-y-Ffynnon a Heol Dowlais yn Efail Isaf, lle mae'r llwybr yn croesi'r hen reilffordd. Mae hyn yn gadael bwlch o tua 30metr heb unrhyw lwybrau troed ar draws y bont. Nodwyd bod yr ardal hon yn dawel gyda llif traffig a cherddwyr isel yn ystod yr asesiad ar droed.

4.3.4 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.3.5 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed yn bennaf gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill. Mae yna nifer o fân gyffyrdd ar hyd y llwybr lle mae mannau croesi diogel heb eu rheoli, er nad ydynt wedi'u diffinio.

4.3.6 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20/30mya. Gwelwyd bod llif a chyflymder cerbydau yn gymedrol yn ystod amser yr asesiad ac roedd nifer y cerddwyr yn isel.

4.3.7 Mewn mannau, mae angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio, gwyliadwriaeth naturiol a gweledEdd i gerddwyr.

4.3.8 Tynnwyd lluniau 4.30 i 4.44 ar hyd **Is-lwybr 1** o Heol yr Orsaf, Heol y Parc, Ffordd y Capel, Heol-y-Ffynnon, Heol Dowlais, Pont Droed dros yr A473, Heol Dowlais, Bryn y Goron i Ffordd Llantrisant, lle mae Is-lwybr 1 yn ymuno â'r Prif Lwybr.

**Ffotograffau 4.30 – Croesfan a reolir gan signalau ar gyffordd Heol yr Orsaf â'r Heol Fawr**




**Ffotograff 4.31 – Troedffordd ar gael ar hyd Heol yr Orsaf yn arwain tuag at drosbont yr A473**



**Ffotograff 4.32 – Croesfan a reolir gan signalau ger rhif 1 Heol yr Orsaf yn darparu cysylltedd â llwybrau troed cyfagos**




**Ffotograff 4.33 – Mannau croesi heb eu rheoli ar yr ynys hollti ar ryngwyneb cylchfan Heol yr Orsaf gyda Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ar yr A473**



**Ffotograff 4.34 – Cyswllt man croesi heb ei reoli i’r llwybr Teithio Llesol i Efail Isaf wrth drosbont yr A473 Ffordd Osgoi Pentre’r Eglwys**




**Ffotograff 4.35 - Golygfa ar hyd Llwybr Cymunedol Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys o drosbont yr A473 Ffordd Osgoi Pentre’r Eglwys i Heol-y-Parc**



**Ffotograff 4.36 – Troedffyrdd cul ar hyd Ffordd-y-Capel tua <1.0metr o led. Nodwyd bod gan y ffordd hon lif isel o gerbydau a cherddwyr yn ystod amser yr asesiad**



**Ffotograffau 4.37 a 4.38 - Hen bont reilffordd ar ryngwyneb Heol-y-Ffynnon a Heol Dowlais yn Efail Isaf, heb unrhyw lwybrau troed yn bresennol na mannau 'cam i lawr' ar gael sy'n gofyn i gerddwyr gerdded ar hyd y ffordd gerbydau i barhau. Nodwyd bod gan y ffordd hon lif isel o gerbydau a cherddwyr yn ystod amser yr asesiad**





**Ffotograff 4.39 – Ar ddiwedd y llwybr troed mae arwyneb bitwminaidd ar ryngwyneb Heol Dowlais â throsbont yr A473**




**Ffotograff 4.40 – Golygfa ar hyd Llwybr Cymunedol Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys i Heol Dowlais**



**Ffotograff 4.41 – Troedffordd ar hyd Heol Dowlais gyda choed a llystyfiant sy'n hongian yn culhau lled y llwybr troed defnyddiadwy. Roedd llif cerbydau yn isel yn ystod amser yr asesiad**




**Ffotograff 4.42 – Mannau croesi heb eu rheoli ar Heol Dowlais ar y gyffordd â Heol Creigiau**



**Ffotograff 4.43 – Croesfan sebra uchel (twmpath ffordd) ger cyffordd Ffordd yr Aethnen â Bryn y Goron**



**Ffotograff 4.44 - Rhan gul o'r llwybr troed ar Fryn y Goron ger y gyffordd â Ffordd Llantrisant**



## 4.4 Is-lwybr 2 – Heol Gwaunmeisgyn i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr ar y gyffordd gyda Llys Cadwal yn mynd tuag at Ysgol Garth Olwg)

4.4.1 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd Is-lwybr 2 yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau am ran estynedig ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant oherwydd llystyfiant wedi gordyfu, gan ofyn i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu gamu i mewn i'r ymyl i basio'i gilydd**.**

4.4.2 Mae disgyblion ysgol uwchradd sy'n byw llai na 2 filltir i ffwrdd yn cerdded y llwybr hwn sydd eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau rhwng Heol Gwaunmeisgyn ac Ysgolion Cynradd - Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau, Beddau, Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn, Ysgol Gynradd Llwyn-crwn eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.4.3 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.4.4 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.4.5 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder o 20/30mya, gyda llif cerbydau i'w gweld yn gymedrol yn ystod amser yr asesiad, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol.

4.4.6 Mewn mannau, mae angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio, gwyliadwriaeth naturiol a gweledydd i gerddwyr.

4.4.7 Tynnwyd ffotograffauu 4.45 i 4.54 ar hyd **Is-lwybr 2** o Heol Gwaunmeisgyn, B4595 Ffordd Llantrisant, Llys Cadwal i Ffordd Llantrisant, lle mae Is-lwybr 2 yn ymuno â'r Prif Lwybr, tuag at Ysgol Garth Olwg.

**Ffotograffau 4.45 – terfynfa fysiau Gwaunmeisgyn oddi ar Heol Gwaunmeisgyn**



**Ffotograffau 4.46 – Man croesi heb ei rheoli (gyda lloches i gerddwyr) ar Heol Gwaunmeisgyn**




**Ffotograffau 4.47 – Croesfan a reolir gan signalau (gydag ynys loches i gerddwyr) ar ryngwyneb Heol Gwaunmeisgyn â B4595 Ffordd Llantrisant**



**Ffotograff 4.48 – Troedffordd ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant gyda llystyfiant yn culhau'r lled defnyddiadwy**




**Ffotograffau 4.49 a 4.50 – Lleoliad croesi amhenodol ar y B4595 Ffordd Llantrisant lle mae gwelededd a Dadansoddiad Bylchau a gofnodwyd yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr**






**Ffotograffau 4.51 – Lleoliad man croesi heb ei reoli wrth y fynedfa i Ffordd Glas-y-Dorlan**




**Ffotograffau 4.52 – Mynediad â ramp i Lys Cadwal gyda mannau 'cam i lawr' ar gael ar derfyniad byr y llwybr troed**



**Ffotograffau 4.53 – Troedffyrdd ar hyd y ffordd fynediad breifat drwy Lys Cadwal**




**Ffotograffau 4.54 – Croesfannau a reolir gan signalau yn y rhyngwyneb rhwng Llys Cadwal a'r B4595 Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr)**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gwelededd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda'r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85fed canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

5.10 **Is-lwybr 2** - I'r gogledd-ddwyrain o fynedfa Garej Texaco ar y B4595 Ffordd Llantrisant, lle mae angen i gerddwyr groesi i sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos cyn croesi cangen Ffordd Glas-y-Dorlan y gylchfan. Er bod llif traffig yn ymddangos yn ganolig yn ystod amser yr asesiad a'r gwelededd yn ymddangos yn dda, mae cyfleoedd croesi angen eu hasesu.




5.11 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig yn y lleoliad hwn i ganfod a oedd bwlch croesi ar gael.

5.12 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.12.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.12.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.13 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 3 lleoliad gwahanol ar 2 ddiwrnod gwahanol, gyda chyfrifiadau rhwng 08:00 a 09:00 a 15:00 a 16:00. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, mae'r cyfnod a gofnododd y traffig mwyaf wedi'i gynnal eto i gadarnhau cysondeb y data.

5.13.1 **B4595 Ffordd Llantrisant rhwng cyffordd mynediad Texaco a chylchfan Ffordd Glas-y-Dorlan ar 21/10/2024.**

- **Yn y bore:** 549 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 20, gyda chyfanswm o 135 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 639 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 9 i 15, gyda chyfanswm o 119 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.2 **B4595 Ffordd Llantrisant rhwng cyffordd mynediad Texaco a chylchfan Ffordd Glas-y-Dorlan ar 22/10/2024**.


- **Yn y prynhawn:** 640 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 18, gyda chyfanswm o 143 o fylchau dros y cyfnod awr

5.14 **Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Mae darnau byr o droedffordd defnydd a rennir sy’n cysylltu â phontydd dros Ffordd Osgoi Pentre’r Eglwys, yn ogystal â thua 440metr ar hyd Heol Dowlais, rhwng y gyffordd â Heol Creigiau a Heol Dowlais (i’r gorllewin o drosbont yr A473) ar **Is-lwybr 1**, lle nad oes fawr ddim, os o gwbl, o adeiladau'n edrych drosto neu wyliadwriaeth naturiol, ac eithrio gan gerddwyr eraill ac ychydig o gerbydau sy'n mynd heibio, gweler Delwedd 6.1 isod. Mae'r rhannau hyn ar gael ac yn cael eu defnyddio'n ddyddiol gan rieni a disgyblion sy'n cerdded rhwng Efail Isaf ac ysgolion cynradd Maes-y-bryn ac Ysgol Garth Olwg. Byddai'r cysylltiadau â throsbontydd yr A473 yn elwa o glirio llystyfiant i wella cysur cerddwyr a lefelau goleuo.

**Delwedd 6.1 – Heol Dowlais ar hyd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol / Llwybr Cymunedol Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys**




6.2 Efallai y bydd materion eraill hefyd nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae’r amseroedd hyn wedi’u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn..

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd unrhyw un o'r is-lwybrau yn ystod y cyfnod a aseswyd.

7.4 Digwyddodd y gwrthdrawiadau canlynol ar y **Prif Lwybr:**

1 gwrthdrawiad a arweiniodd at fân anafiadau ar yr Heol Fawr ger safle bws Neuadd y Plwyf. Dyddiad 06/11/2019

1 gwrthdrawiad difrifol ar yr Heol Fawr Ton-teg wrth Gyffordd Tesco Express. Dyddiad 07/09/2023.

# 8. Trosolwg Llwybr

## 8.1 Prif Lwybr – Garej Ton-teg i Ysgol Gyfun Bryncelynnog

8.1.1 Mae'r llwybr o fewn terfynau cyflymder 30/20mya.

8.1.2 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.1.3 Mae darnau lleol o droedffordd ar hyd y B4595 yr Heol Fawr a B4595 Ffordd Llantrisant, lle mae cerbydau'n rhwystro llwybrau troed sy'n effeithio ar lwybrau cerdded. Mae parcio ar y stryd hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach croesi'r ffordd o flaen yr ysgol. Mae hyn yn debygol o waethygu ymhellach pan fydd grwpiau mwy o bosibl o blant ysgol yn cerdded y llwybr hwn. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.1.4 Mae darnau ar wahân o droedffordd ar hyd y B4595 yr Heol Fawr a B4595 Ffordd Llantrisant lle mae angen torri coed a llystyfiant sy'n hongian i wneud y mwyaf o led y llwybr troed, lefelau cysur cerddwyr a sicrhau y gall cerddwyr basio ei gilydd yn ddiogel.

8.1.5 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.1.6 Mae ymchwiliad wedi'i gynnal i wrthdrawiadau a arweiniodd at farwolaeth cerddwyr am y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 Mae'r data'n dangos bod 2 wrthdrawiad wedi digwydd yn ystod y cyfnod a ddadansoddwyd gan arwain at 1 achos o fân anafiadau i gerddwr ac 1 achos o anafiadau difrifol i gerddwr. Ni nodwyd unrhyw glystyrau na thueddiadau.

8.1.7 Gwelwyd bod modd croesi ffyrdd ymyl yn ddiogel, a bod gwrthdrawiad rhwng cerbydau / cerddwyr yn annhebygol. Lle cododd yr asesiad bryderon, cynhaliwyd arolygon traffig i sicrhau bod bylchau croesi yn cydymffurfio â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

8.1.8 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli / heb eu rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfannau â signalau - Ar y gyffordd pedair cangen rhwng Heol yr Eglwys a Heol Tonteg â'r B4595 yr Heol Fawr.
- Croesfan â signalau - Y tu allan i rif 107 Heol Talbot (croesfan groesgam).
- Croesfan â signalau - Ar y B4595 yr Heol Fawr gyferbyn â Pharc Ton-teg.
- Croesfan heb ei reoli – Y tu allan i rif 12 Tai Llwyn-y-Celyn ar y B4595 yr Heol Fawr.

  (lloches i gerddwyr ar groesfan groesgam).
- Croesfannau â signalau – Ar gyffordd pedair cangen Heol Sant Illtyd a Heol yr Orsaf â'r B4595 yr Heol Fawr.
- Croesfan â signalau – Naill ochr i fynedfa gyffordd Ysgol Gynradd Garth Olwg.
- Croesfan â signalau – Ar y B4595 yr Heol Fawr ger mynedfa gyffordd Rhodfa Dewi Sant.

- Croesfannau â signalau – Ar gyffordd pedair cangen Pen-yr-eglwys a Choed Dowlais â'r B4595 Ffordd Llantrisant.
- Croesfan â signalau – Ar y B4595 Ffordd Llantrisant i'r de-orllewin o'r gyffordd â Bellway – Coed Derw.
- Croesfan â signalau – Ar y B4595 Ffordd Llantrisant y tu allan i salon gwallt Root 66 Hair Studio.
- Croesfan â signalau – Ar y B4595 Ffordd Llantrisant i'r dwyrain o gyffordd Bryn y Goron.
- Croesfannau â signalau – Ar gyffordd pedair cangen Llys Cadwal a Woodlands â'r B4595 Ffordd Llantrisant.
- Croesfan Sebra – Ar y B4595 Heol Tynant i'r de-orllewin o'r gyffordd â Stryd y Fasnach.

8.1.9 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

## 8.2 Is-lwybr 1 – Efail Isaf (yn cychwyn ar Heol yr Orsaf) i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr)

8.2.1 Mae darnau ar wahân gyda llwybr troed cul neu ddim llwybr troed parhaus ar hyd y llwybr, lle bydd angen i gerddwyr gamu i'r ymyl/ffordd gerbydau i barhau, yn y lleoliadau canlynol:

- Mae'r llwybr troed presennol yn culhau wrth ddynesu at gyffordd Ffordd-y-Capel â Heol-y-Ffynnon. Mae'n bosibl y bydd angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd i barhau ar hyd y llwybr. Roedd llif traffig yn ymddangos yn isel yn ystod amser yr asesiad, gyda gwelededd da ac roedd nifer o leoliadau gyda bylchau digonol mewn traffig a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

- Mae'r llwybr troed presennol yn dod i ben wrth ddynesu at y bont dros yr hen reilffordd ar hyd Heol Dowlais (ym mhentref Efail Isaf), ac nid oes unrhyw droedffyrdd ar y naill ochr am tua 50metr wrth i'r llwybr groesi'r bont. Mae angen i gerddwyr gerdded ar y ffordd gerbydau i barhau ar hyd y llwybr heb unrhyw fannau 'cam i lawr' ar gael. Roedd llif traffig yn ymddangos yn isel yn ystod amser yr asesiad, gyda gwelededd da a bylchau digonol mewn traffig a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

- Mae'r droedffordd bresennol yn culhau ar hyd Heol Dowlais (i'r gorllewin o'r A473), lle mae'n bosibl y bydd angen i gerddwyr gamu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd i barhau ar hyd y llwybr. Mae hwn yn lwybr '*Mynediad yn Unig*' ac roedd llif traffig yn ymddangos yn isel iawn yn ystod amser yr asesiad, gyda gwelededd da a bylchau digonol mewn traffig a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

8.2.2 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.2.3 Mae ymchwiliadau i wrthdrawiadau ar hyd y llwybr hwn yn dangos bod **1** gwrthdrawiad difrifol wedi arwain at anafiadau i gerddwr ifanc am y pum mlynedd rhwng 2018 a 2022 (cynhwysol). O'r data nid yw'n glir ble mae'r bai am y gwrthdrawiad na pha amser y digwyddodd.

8.2.4 Gwelwyd bod modd croesi ffyrdd ymyl yn ddiogel, a bod gwrthdrawiad rhwng cerbydau / cerddwyr yn annhebygol. Lle cododd yr asesiad bryderon, mae arolygon traffig wedi'u cynnal i sicrhau bod bylchau'n cydymffurfio â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

8.2.5 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli / heb eu rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan a reolir gan signalau – gyferbyn â rhif 1 Heol yr Orsaf.
- Croesfan Sebra - Ar Fryn y Goron ychydig i'r gogledd o fynedfa gyffordd Ffordd yr Aethnen.
- Croesfan â signalau – Y tu allan i Wynfield House ar y B4595 Ffordd Llantrisant, ger y gyffordd gyda Bryn y Goron.

8.2.6 Mae darnau byr o lwybr troed defnydd a rennir sy'n cysylltu â phontydd dros Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, yn ogystal â thua 440metr ar hyd Heol Dowlais, rhwng y gyffordd â Heol Creigiau a Heol Dowlais (i'r gorllewin o drosbont yr A473) ar Is-lwybr 1, lle nad oes fawr ddim, os o gwbl, o adeiladau'n edrych drosto neu wyliadwriaeth naturiol, ac eithrio gan gerddwyr eraill ac ychydig o gerbydau sy'n mynd heibio. Mae'r rhannau hyn ar gael ac yn cael eu defnyddio'n ddyddiol gan rieni a disgyblion sy'n cerdded rhwng Efail Isaf ac ysgolion cynradd Maes-y-bryn ac Ysgol Garth Olwg. Byddai'r cysylltiadau â throsbontydd yr A473 yn elwa o glirio llystyfiant i wella cysur cerddwyr a lefelau goleuo.

## 8.3 Is-lwybr 2 – Heol Gwaunmeisgyn i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr ar y gyffordd â Llys Cadwal tuag at Ysgol Garth Olwg)

8.3.1 Mae darnau ar wahân gyda llwybr troed cul neu ddim llwybr troed parhaus ar hyd y llwybr, lle bydd angen i gerddwyr gamu i'r ymyl/ffordd gerbydau i barhau, yn y lleoliadau canlynol:

- Mae'r llwybr troed presennol yn culhau mewn mannau ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant i tua <1.0metr lle mae llystyfiant sydd wedi gordyfu angen ei dorri'n ôl er mwyn cynyddu lled y llwybr troed, lefelau cysur cerddwyr a sicrhau bod cerddwyr yn gallu mynd heibio i'w gilydd yn ddiogel.

- Mae'r llwybr troed presennol yn dod i ben am ran fer ar hyd Llys Cadwal lle gallai fod angen i gerddwyr gamu i'r ffordd gerbydau neu ymyl y ffordd i basio ei gilydd i barhau ar hyd y llwybr. Mae hwn yn lwybr '*Mynediad yn Unig*' ac roedd llif traffig yn ymddangos yn isel iawn yn ystod amser yr asesiad, gyda gwelededd da a bylchau digonol mewn traffig a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

8.3.2 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.3.3 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.3.4 Gwelwyd bod modd croesi ffyrdd ymyl yn ddiogel, a bod gwrthdrawiad rhwng cerbydau / cerddwyr yn annhebygol. Lle cododd yr asesiad bryderon, mae arolygon traffig wedi'u cynnal i sicrhau bod bylchau'n cydymffurfio â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

8.3.5 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli / heb eu rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan heb ei rheoli (gyda lloches i gerddwyr) – Ger y fynedfa i'r derfynfa fysiau ar Heol Gwaunmeisgyn.
- Croesfannau â signalau - Ar gyffordd 3 cangen Heol Gwaunmeisgyn a'r B4595 Ffordd Llantrisant.
- Croesfan heb ei reoli – Ar gangen Ffordd Glas-y-Dorlan o'r gylchfan ar y B4595 Ffordd Llantrisant.
- Croesfannau â signalau - Ar gyffordd 4 cangen Woodlands a Llys Cadwal â'r B4595 Ffordd Llantrisant.

8.3.10 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

8.3.11 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn un lleoliad, gyda chyfrifiadau'n cael eu cynnal rhwng 08:00 a 09:00 a 15:00 a 16:00, gan gynnal ailymweliad ar ddiwrnod gwahanol yn y prynhawn, lle'r oedd y cyfrif traffig uchaf. Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig yn y lleoliad canlynol fel y nodir yn Adran 5:

- Lleoliad - B4595 Ffordd Llantrisant rhwng cyffordd mynediad Texaco a chylchfan Ffordd Glas-y-Dorlan.

8.3.12 Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

# 9. Casgliadau ac Argymhellion

## 9.1 Prif Lwybr – Garej Ton-teg i Ysgol Gyfun Bryncelynnog

9.1.1 Mae'r llwybr presennol yn bodloni'r meini prawf i'w ystyried ei fod ar gael i'w gerdded i'r ysgol yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Dylid ystyried*** gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr i wella cysylltedd troedffyrdd a diogelwch croesfannau i gerddwyr wrth ddynesu at fynedfeydd yr ysgol. Mae parcio ar y stryd yn ei gwneud hi'n anoddach croesi'r ffordd o flaen yr ysgol. Mae hyn yn debygol o waethygu ymhellach pan fydd grwpiau mwy o bosibl o blant ysgol yn cerdded y llwybr hwn. Argymhellir darparu palmentydd botymog yn y lleoliad hwn i arwain cerddwyr at y man croesi sydd ar gael, a bod cyfyngiadau parcio yn eu lle i sicrhau bod mannau croesi yn parhau i fod yn glir ac yn ddefnyddiadwy.

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.2 Is-lwybr 1 – Efail Isaf (yn cychwyn ar Heol yr Orsaf) i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â'r Prif Lwybr)

9.2.1 Mae'r llwybr presennol yn bodloni'r meini prawf i'w ystyried ei fod ar gael i'w gerdded i'r ysgol yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Gellid ystyried*** gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwella cyfleusterau i gerddwyr er mwyn gwella parhad llwybrau troed a diogelwch cerddwyr wrth ddynesu at y bont dros yr hen reilffordd ar hyd Heol Dowlais (ym mhentref Efail Isaf). Nid oes unrhyw droedffyrdd y naill ochr i'r ffordd gerbydau lle mae'r llwybr yn croesi'r hen reilffordd am tua 50metr. Mae angen i gerddwyr gerdded yn y ffordd gerbydau i barhau ar hyd y llwybr, heb unrhyw fannau 'cam i lawr' na gofod osgoi ar gael. Mae hyn yn debygol o waethygu pan fydd grwpiau mwy o bosibl o blant ysgol yn cerdded y llwybr hwn. Er bod lefelau traffig yn ymddangos yn isel yn ystod amser yr asesiad, gyda gweledLedd da a bylchau digonol mewn traffig a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr, argymhellir darparu llwybr i gerddwyr wedi'i farcio'n glir ar draws y bont.

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.3 Is-lwybr 2 – Heol Gwaunmeisgyn i Ffordd Llantrisant (yn ymuno â’r Prif Lwybr ar y gyffordd â Llys Cadwal tuag at Ysgol Garth Olwg)

9.3.1 Mae'r llwybr presennol yn bodloni'r meini prawf i'w ystyried ei fod ar gael i'w gerdded i'r ysgol yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Dylid ystyried*** gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwella'r cyfleusterau croesi i gerddwyr i dynnu sylw at y lleoliad croesi gorau posibl rhwng garej Texaco a'r gylchfan wrth y fynedfa i Ffordd Glas-y-Dorlan. Lle mae dadansoddiad bwlch cerddwyr wedi nodi hwn fel lleoliad croesi sy'n cydymffurfio â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Argymhellir darparu cyrbau isel a phalmentydd botymog yn y lleoliad hwn i arwain cerddwyr at y man croesi sydd ar gael.

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com